OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 10

### Trosglwyddiadau

### PENNOD 2

### Trosglwyddiadau allan

**Datganiad o hawlogaeth**

**144.**—(1) Yn y datganiad o hawlogaeth, rhaid i'r rheolwr cynllun bennu'r dyddiad y cyfrifir y cyfwerth ariannol neu'r gwerth trosglwyddiad clwb drwy gyfeirio ato ("y dyddiad gwarant").

(2) Ac eithrio pan fo paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r dyddiad gwarant fod o fewn y ddau gyfnod canlynol—

(a) y cyfnod o dri mis sy'n dechrau gyda dyddiad cais yr aelod am y datganiad o hawlogaeth ("y cyfnod o dri mis"); a

(b) y cyfnod o 10 diwrnod sy'n diweddu gyda'r dyddiad pan ddarperir y datganiad hwnnw i'r aelod ("y cyfnod o 10 diwrnod").

(3) Wrth gyfrif y cyfnod o 10 diwrnod, rhaid peidio â chynnwys dyddiau Sadwrn, dyddiau Sul, Dydd Nadolig, Dydd Calan na Dydd Gwener y Groglith.

(4) Caiff y rheolwr cynllun, yn y datganiad o hawlogaeth, bennu dyddiad gwarant sy'n dod o fewn y chwe mis sy'n dechrau gyda dyddiad cais yr aelod am ddatganiad o hawlogaeth—

(a) os, am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth y rheolwr cynllun, na ellir cael yr wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo swm y cyfwerth ariannol neu'r gwerth trosglwyddiad clwb cyn diwedd y cyfnod o dri mis; a

(b) os yw'r rheolwr cynllun o'r farn ei bod yn rhesymol pennu dyddiad gwarant sydd y tu allan i'r cyfnod o dri mis.